*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2504 (Cy.205) (C.82)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRUDEINTYDDION, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* - - | *3 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 118(4), (6), (7) a 122 o Ddeddf Safonau Gofal 2000([1]):

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984([2]);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Y diwrnodau penodedig

**2.**—(1) At ddibenion galluogi ceisiadau am gofrestru i gael eu gwneud o dan adran 23(3) o Ddeddf 1984 (cofrestru cartrefi nyrsio) yn unig, 31 Gorffennaf 2001 yw'r diwrnod penodedig i adran 39 o Ddeddf 2000 (estyn ystyr cartref nyrsio dros dro) ddod i rym mewn perthynas â Chymru.

(2) 31 Awst 2001 yw'r diwrnod penodedig i weddill adran 39 o Ddeddf 2000 ddod i rym mewn perthynas â Chymru.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pŵer yn arferadwy gan y Gweinidog priodol. Diffinnir y Gweinidog priodol yn adran 121(1). Mewn perthynas â Chymru mae'n golygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru; mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon mae'n golygu'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) 1984 p.23.

**Darpariaethau trosiannol**

**3.**—(1) Os oes person ("y ceisydd") wedi gwneud cais yn briodol cyn 31 Awst 2001 o dan adran 23(3) o Ddeddf 1984 mewn perthynas â safle yng Nghymru sy'n dod o fewn y disgrifiad yn adran 21(3B) o Ddeddf 1984 (ystyr cartref nyrsio) bydd paragraff (2) o'r erthygl hon yn gymwys.

(2) Ni fydd adran 23(1) o Ddeddf 1984 (tramgwydd rhedeg cartref nyrsio heb ei gofrestru) yn gymwys i'r ceisydd—

(a) nes yr amser y caniateir y cais, neu

(b) os caiff y cais ei wrthod—

(i) os na ddygir apêl, nes bod 28 diwrnod wedi dod i ben ar ôl i benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gyflwyno(**3**)); neu

(ii) os dygir apêl, nes iddi gael ei phenderfynu neu ei gollwng.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*Dafydd Elis Thomas*

3 Gorffennaf 2001 — Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**3**) Mae swyddogaethau cofrestru'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran II o Ddeddf 1984 wedi'u dirprwyo i awdurdodau iechyd yng Nghymru. Rhoddwyd y swyddogaethau hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf 1984 ond cawsant eu gwneud yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Dirprwyodd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Swyddogaethau Awdurdodau Iechyd a Threfniadau Gweinyddol) 1996 (O.S.1996/708)) swyddogaethau cofrestru'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran II o Ddeddf 1984 i'r awdurdodau iechyd yng Nghymru. Mae O.S. 1996/708 yn effeithiol mewn perthynas â Chymru fel pe bai'r swyddogaethau hynny o dan Ddeddf 1984 a wnaed yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol gan OS 1999/672 ac a oedd wedi'u dirprwyo o'r blaen i'r awdurdodau iechyd yng Nghymru gan O.S. 1996/70 wedi cael eu dirprwyo i'r awdurdodau iechyd yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol: gweler adrannau 23(3) a 43 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38).

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adran 39 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ('Deddf 2000') i rym mewn perthynas â Chymru. Mae adran 39 o Ddeddf 2000 yn diwygio adran 21 o Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984 ('Deddf 1984') er mwyn estyn ystyr "nursing home" ('cartref nyrsio'). Effaith y diwygiad yw ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n rhedeg safle a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio gan ymarferydd deintyddol er mwyn trin cleifion o dan anaesthesia gyffredinol gofrestru'r safle hwnnw yn gartref nyrsio o dan Ran II o Ddeddf 1984, oni bai bod yr esemptiad yn gymwys. Mae'r esemptiad yn gymwys os yw'r safle yn cael ei ddefnyddio gan ymarferydd deintyddol er mwyn trin cleifion o dan anaesthesia gyffredinol ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae adran 39 yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2001, i alluogi ceisiadau am gofrestru i gael eu gwneud mewn perthynas â safleoedd sy'n dod yn gofrestradwy o'r newydd yn unig. Ar 31 Awst 2001 y daw gweddill adran 39 i rym.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaethau trosiannol. Gall safleoedd sy'n gofrestradwy o'r newydd barhau i weithredu heb gofrestru ar ôl 31 Awst 2001, tra bydd y broses gofrestru yn mynd yn ei blaen, cyhyd â'u bod wedi gwneud cais am gofrestru cyn y dyddiad hwnnw.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 ('y Ddeddf') y gwneir cofnod ar eu cyfer yn y Tabl isod wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru ar y dyddiad a bennir ochr yn ochr â'u cofnod. Cafodd y darpariaethau hynny y dilynir eu cofnod ag '(**a**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2000/2992 (Cy.192) (C.93); cafodd y rhai a ddilynir â '(**b**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/139 (Cy.5) (C.7); cafodd y rhai a ddilynir ag '(**c**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2190 (Cy.152) (C.70) ; a chafodd y rhai a ddilynir ag '(**ch**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2354 (Cy.192) (C.80).

| Y ddarpariaeth | Y dyddiad cychwyn |
|---|---|
| Adrannau 1–5 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 7(7) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 8 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 9(3)–(5) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 11–12 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 14–15 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 16 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 22–23 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 25 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 33–35 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 36 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |

| Y ddarpariaeth | Y dyddiad cychwyn |
|---|---|
| Adran 38(**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 40 (yn rhannol) (**b**) | 1 Chwefror 2001 |
| Adran 40 (y gweddill) (**b**) | 28 Chwefror 2001 |
| Adran 41 (**b**) | 28 Chwefror 2001 |
| Adrannau 42–43 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 48–52 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 54(1), (3)–(7) (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 55 ac Atodlen 1 (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 72 ac Atodlen 2 (**a**) | 13 Tachwedd 2000 |
| Adran 79(1) (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 79(2) ac Atodlen 3 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 79(3),(4) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 98 (**ch**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 107–108 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 112 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 113 (2)–(4) (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 114 (yn rhannol) (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 114 (y gweddill) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 115 (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) (**b**) | 28 Chwefror 2001 |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adran 117(1) ac Atodlen 5 (yn rhannol) (**c**) | 1 Gorffennaf 2001 |

Mae darpariaethau'r Ddeddf y gwneir cofnod ar eu cyfer yn y Tabl isod wedi'u dwyn i rym gan O.S. 2000/2544 (C.72) mewn perthynas â Chymru, yn ogystal ag mewn perthynas â Lloegr, ar y dyddiad a bennir ochr yn ochr â'u cofnod.

| Y ddarpariaeth | Y dyddiad cychwyn |
|---|---|
| Adran 80(8) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 94 | 2 Hydref 2000 |
| Adran 96 (yn rhannol) | 15 Medi 2000 |
| Adran 96 (y gweddill) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 99 | 15 Medi 2000 |
| Adran 100 | 2 Hydref 2000 |
| Adran 101 | 2 Hydref 2000 |
| Adran 103 | 2 Hydref 2000 |

| Y ddarpariaeth | Y dyddiad cychwyn |
| --- | --- |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 117(2) ac Atodlen 6 (yn rhannol) | 2 Hydref 2000 |

Yn ychwanegol, mae amryw o ddarpariaethau eraill y Ddeddf wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2000/2795 (C.79); O.S. 2001/290 (C.17); O.S. 2001/731 (C.26); O.S. 2001/952 (C.35); O.S. 2001/1210 (C.41); O.S. 2001/1536 (C.55); O.S. 2001/2041 (C.68).